COVID-19 Update: 17th April

In today's COVID-19 update from Cardiff Council: a temporary one-way system for pedestrians at Roath Park Lake; changes to free school meals; and the Adviceline and Food team.

Temporary one-way system introduced for pedestrians to help social distancing at Roath Park Lake

A temporary one-way system for pedestrians around Roath Park Lake is being introduced this weekend to help local residents follow social distancing guidelines when they go on their daily exercise.

The pilot scheme, which will start on Saturday April 18, is in response to concerns raised by local residents and will involve a clockwise one-way system around the path by the lake and will remain in place seven days a week until further notice. Signs will be placed in the park to show local residents and visitors how the new system will work and staff will be on hand this weekend to help bed in the new arrangements.

Two-way traffic will be maintained on Wild Gardens, Lake Road East and Lake Road West, between the Wild Gardens and the promenade. Here, all visitor parking will be removed, nearest to the lake, which will provide additional space for cyclists and joggers.

The changes to the layout of the highway are designed to discourage people from making non-essential trips by car to the area.

The one way system around the lake is due to be introduced on a pilot basis for the weekend commencing 18th April. If successful the scheme will be extended until at least 26th April with a view to implementing more durable measures to cover a longer period of COVID-19.

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23662.html

Changes to Free School Meals

Families with children eligible for Free School Meals will now be able to buy food using funds deposited directly into their bank account, whilst schools are closed due to COVID-19. This will provide parents with more flexibility on where they can shop and the voucher scheme which is currently being delivered will continue to run alongside the new arrangement.

Cardiff Council has developed the new arrangement which will deliver BACS payments using Parent Pay, an online payment system already used by 91 of Cardiff's schools.

The Council is assisting the remaining 34 schools in signing up to the system to ensure everyone can access the regular payment scheme.

Parents or carers with children who are eligible for Free School Meals will receive a letter during next week which will provide information on how to receive their fortnightly payment. For those who are not yet using ParentPay, there will be a step by step guide on how to register and contact details should they require further assistance.

Parents and carers are encouraged to register to receive payments as soon as they receive their letters so that they can receive their first BACS payments from Monday 27, April.

Click here to read the story in full:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23665.html

We can help – Council Adviceline and Food team

The Council's Adviceline has taken more than 4,600 calls from residents across Cardiff looking for help and support during the COVID-19 crisis while the Food team has delivered 1,900 food parcels.

The Adviceline is open six days a week to help people with a range of issues including accessing food and essential items, claiming benefits and income, Into Work advice, Universal Credit advice and help with debts.

Since the start of the national lockdown announced on March 23, the team have answered 4,609 calls and are playing a crucial role in the city's response to ensuring vulnerable people in need are provided for during this difficult time.

Click here to read all about the help that is available:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23667.html

Diweddariad COVID-19: 17 Ebrill

Dyma'r crynodeb COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: system unffordd dros dro i gerddwyr yn Llyn Parc y Rhath; newidiadau i Brydau Ysgol am Ddim; a'r tîm Llinell Gyngor a Bwyd y Cyngor

Cyflwyno system unffordd dros dro i gerddwyr i hwyluso ymbellhau cymdeithasol yn Llyn Parc y Rhath

Mae system unffordd dros dro ar gyfer cerddwyr o amgylch Llyn Parc y Rhath yn cael ei chyflwyno'r penwythnos hwn i helpu preswylwyr lleol i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol pan fyddant yn mynd am eu hymarfer dyddiol.

Mae’r cynllun peilot, a fydd yn dechrau ddydd Sadwrn 18 Ebrill, yn ymateb i bryderon a godwyd gan breswylwyr lleol a bydd yn creu system unffordd glocwedd ar hyd y llwybr o amgylch y llyn. Bydd yn parhau ar waith am saith diwrnod yr wythnos hyd nes y nodir yn wahanol.

Bydd arwyddion yn cael eu gosod yn y parc i ddangos i breswylwyr lleol ac ymwelwyr sut y bydd y system newydd yn gweithio a bydd staff wrth law y penwythnos hwn i helpu pobl i ddod i arfer â’r trefniadau newydd.

Bydd traffig dwyffordd yn cael ei gynnal ar Wild Gardens Road, Lake Road East a Lake Road West, rhwng y Gerddi Gwyllt a'r promenâd. Yma, bydd yr holl leoedd parcio i ymwelwyr yn cael eu tynnu, yn agosaf at y Llyn, a fydd yn creu lle ychwanegol i feicwyr a loncwyr.

Mae'r newidiadau i gynllun y briffordd wedi'u cynllunio i annog pobl i beidio â gwneud teithiau nad ydynt yn hanfodol mewn car i'r ardal.

Disgwylir i’r system unffordd o amgylch y llyn gael ei threialu ar y penwythnos sy’n dechrau ar 18 Ebrill. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y cynllun yn cael ei estyn tan o leiaf 26 Ebrill gyda'r bwriad o weithredu mesurau mwy parhaol ar gyfer cyfnod hwy o COVID-19.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23663.html

Newidiadau i Brydau Ysgol am Ddim

Bydd teuluoedd â phlant sy’n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim nawr yn gallu prynu bwyd gan ddefnyddio arian a gaiff ei roi’n uniongyrchol yn eu cyfrif banc, tra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19. Bydd hyn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i rieni o ran ble y gallant siopa a bydd y cynllun talebau a ddarperir ar hyn o bryd yn parhau i gael ei gynnal ar y cyd â’r trefniadau newydd.

Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu trefniadau newydd fydd yn gwneud taliadau BACS gan ddefnyddio Parent Pay, system talu ar-lein sydd eisoes yn cael ei defnyddio gan 91 o ysgolion Caerdydd.

Mae’r Cyngor yn cynorthwyo’r 34 o ysgolion sy’n weddill i gofrestru gyda’r system i sicrhau y gall pawb gael mynediad i gynllun taliadau rheolaidd.

Bydd rhieni neu ofalwyr â phlant sy’n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yn cael llythyr yn ystod yr wythnos nesaf fydd yn rhoi gwybodaeth iddynt ar sut i dderbyn y taliad fesul pythefnos. Ar gyfer y rheiny nad ydynt yn defnyddio ParentPay eto, bydd canllaw cam wrth gam ar sut i gofrestru yn ogystal â manylion cyswllt os bydd angen rhagor o gymorth arnynt.

Anogir rhieni a gofalwyr i gofrestru i gael taliadau cyn gynted ag y cânt eu llythyrau er mwyn gallu derbyn eu taliadau BACS cyntaf o ddydd Llun 27 Ebrill.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23666.html

Gallwn ni helpu – Tîm Llinell Gyngor a Bwyd y Cyngor

Mae Llinell Gyngor y Cyngor wedi derbyn dros 4,600 o alwadau gan drigolion o bob rhan o Gaerdydd yn chwilio am gymorth a chefnogaeth yn ystod argyfwng COVID-19, ac mae'r Tîm Bwyd wedi darparu 1,900 o barseli bwyd.

Mae'r Llinell Gyngor ar agor chwe diwrnod yr wythnos i helpu pobl ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys cael gafael ar fwyd ac eitemau hanfodol, hawlio budd-daliadau ac incwm, cyngor I Mewn i Waith, cyngor ar Gredyd Cynhwysol a help gyda dyledion.

Ers cyhoeddi'r cyfyngiadau symud yn y DU ar 23 Mawrth, mae'r tîm wedi ateb 4,609 o alwadau ac maen nhw'n cyflawni rôl hollbwysig yn ymateb y ddinas i sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl mewn angen sy'n agored i niwed yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23668.html